Hawdd ei Ddeall

Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Neurodivergent Friendly Cardiff

# Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

## Ein cynllun ar gyfer 2025 i 2030



CARDIFF
CAERDYDD

Rhagfyr 2025

# Am y ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei ddeall o **Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth - Strategaeth 2025-2030**.



Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan**: caerdyddsyndeallniwrowahaniaeth.co.uk

**Ebost**: neurodivergentfriendly@cardiff.gov.uk

**Ffôn**: 02920 871083

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosybols 403527247.

# Cynnwys


**Geiriau a termau pwysig ........ 4**

**Am Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth ........ 5**

**Ein nodau ........ 7**

1.Bod yn rhan o'ch cymuned ........ 8

2.Cyrraedd eich nodau mewn dysgu a gwaith ........ 13

3.Cael gwybodaeth rydych chi'n gallu ymddiried ynddi........ 17

4.Cefnogi iechyd a lles pobl a theuluoedd niwrowahanol .... 19

5.Cael eich deall a dathlu gwahaniaeth........ 24

6.Gwella lleoedd ar gyfer pobl niwrowahanol ........ 27

**Gwrando ar beth mae pobl yn feddwl........ 32**


**Beth sy'n digwydd nesaf ........ 35**

# Geiriau a termau pwysig



### Niwroamrywiol

Mae ymennydd pawb yn wahanol. Mae gan bob un ohonom ni sgiliau, diddordebau a ffyrdd gwahanol.




### Niwronodweddiadol

Mae pobl **niwronodweddiadol** yn gweld y byd yn yr un ffordd. Mae eu hymennydd yn gweithio yn y ffordd rydyn ni'n ei ddisgwyl.



### Niwrowahanol

Mae gan rai pobl wahaniaethau mwy yn y ffordd maen nhw'n meddwl ac yn cyfathrebu. Maen nhw'n **niwrowahanol**.



Rydyn ni'n defnyddio'r gair **niwrowahanol** yn y cynllun yma am yr holl wahaniaethau a chyflyrau'r ymennydd.

Ond mae pobl i gyd yn dal i fod yn wahanol ac mae ganddyn nhw anghenion gwahanol.

# Am Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth
Neurodivergent Friendly Cardiff

**Mae Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth** yn grŵp sy'n cynnwys gwahanol sefydliadau:

- Cyngor Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Heddlu
- Elusennau a grwpiau
- Busnesau a siopau



Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod pobl **niwrowahanol** yn cael eu cynnwys.




Rydyn ni wedi bod yn gweithio i wneud Caerdydd yn fwy cyfeillgar i **niwrowahaniaeth**.



Mae hyn yn medddwl gwneud Caerdydd yn rhywle lle mae pobl **niwrowahanol** yn cael eu cefnogi i fyw'n dda.



Rydyn ni wedi bod yn gofyn i bobl beth maen nhw'n meddwl ac yn gweithio gyda'n gilydd gyda llawer o bobl a sefydliadau.




Dyma ein cynllun i wneud Caerdydd sy'n deall **niwrowahaniaeth**.




# Ein nodau



**Ein prif nod ydy:**

- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o **niwrowahaniaeth**.
- Gwneud Gaerdydd yn rhywle lle mae pobl **niwrowahanol** yn cael eu cefnogi i fyw'n dda.




I'n helpu i wneud hyn, mae gennym ni 6 nod ar gyfer pobl niwrowahanol. Fe fyddwn ni'n siarad mwy amdanyn nhw yn y 6 adran nesaf.



Maen nhw'n dangos beth fydd sefydliadau ar draws Caerdydd yn ei wneud. Sylwch nad ydyn ni wedi gallu rhestru pob gwasanaeth yn y fersiwn Hawdd ei Ddeall.

# 1. Bod yn rhan o'ch cymuned





Rydyn ni eisiau i Gaerdydd fod yn sir lle mae pobl **niwrowahanol** a'u teuluoedd yn gallu cymryd rhan yn eu cymuned. Lle maen nhw'n gallu byw bywydau llawn.



Dyma rai o'r pethau y bydd sefydliadau yn eu gwneud:

**Fe fydd Cyngor Caerdydd yn:**

- Gweithio gyda phobl **niwrowahanol** hŷn i sefydlu grwpiau i helpu gyda lles.

- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phobl ifanc i sefydlu grwpiau sy'n eu cefnogi.



- Fe fydd **Cymdeithas Dyslecsia Prydain** yn dod o hyd i gefnogaeth i bobl sy'n profi **dyslecsia** a **dyscalcwlia**.



Mae **dyslecsia** yn anhawster dysgu i'w wneud gyda darllen a sillafu.

Mae **dyscalcwlia** yn anhawster dysgu i'w wneud â rhifau a mathemateg.



- Fe fydd **Action in Caerau and Ely (ACE)** yn dweud wrth bobl mewn ysgolion am eu prosiect cymorth cymheiriaid.



**Cymorth cymheiriaid** ydy pan fydd grŵp o bobl sydd â'r un profiadau yn cefnogi ei gilydd.

Mae'r prosiect yn cael ei alw yn **ACE Umbrella Project** ac mae'n **gymorth gan gymheiriaid** i rieni a theuluoedd.



- Fe fydd **Cysylltiadau Sbectrwm Awtistiaeth Cymru** yn gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am eu sesiwn galw heibio.

Mae'n cynnig gwahanol weithgareddau i bobl dros 16 oed.



- Fe fydd **Chwaraeon Met Caerdydd** yn cynnal sesiynau chwaraeon i bobl ifanc **niwrowahanol**.

Fe fyddan nhw hefyd yn dweud wrth bobl am weithgareddau sy'n deall **niwroamrywiol**.

CHWARAEON ANABLEDD CYMRU DISABILITY SPORT WALES

Fe fydd **Chwaraeon Anabledd Cymru** yn dweud wrth eraill am eu gwybodaeth am **niwrowahaniaeth**.



Fe fyddan nhw'n dweud wrth bobl am eu cynllun o'r enw InSport. Mae hyn yn helpu clybiau i gynnwys mwy o bobl.



Fe fydd **Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd** yn dweud wrth bobl am eu rhaglen sydd wedi'i chynllunio ar gyfer plant ag anableddau.

Fe fyddan nhw'n hyfforddi eu hyfforddwyr mewn **niwrowahaniaeth**.



Fe fyddan nhw'n cael diwrnodau gêm sy'n synhwyraidd gyfeillgar gyda lleoedd i bobl.



- **Gwasanaeth Lles Caerdydd** - Maen nhw wedi dechrau grŵp cymunedol **ADHD**.

Mae **ADHD** yn sefyll am **Anhwylder Diffyg Sylw a Gorfywiogrwydd**.



Fe fyddan nhw'n cynnal mwy o weithgareddau ar gyfer pobl **niwrowahanol** a'u teuluoedd.



- **Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd** – Fe fyddan nhw'n cynnig gweithgareddau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc **niwrowahanol**. Fe fyddan nhw hefyd yn gofyn i bobl ifanc beth maen nhw'n feddwl ac yn gwneud yn siŵr bod staff wedi'u hyfforddi'n dda.




- Mae **Ffrindiau Gig Cymru** yn paru pobl ag anabledd dysgu neu bobl awtistig â gwirfoddolwr sy'n rhannu diddordebau tebyg.



- **Gwasanaethau Chwarae Caerdydd** – Fe fyddan nhw’n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau chwarae yn cynnwys plant a theuluoedd **niwrowahanol**.



- Fe fyddan nhw’n cynnal Sesiynau Chwarae Hamddenol ar gyfer plant **niwrowahanol** a’u teuluoedd. Hefyd cael sesiynau ar gyfer plant ag anghenion cymorth uwch.



- **Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd** – Maen nhw eisiau gwneud yn siŵr bod eu gweithgareddau yn rhai sy’n deall **niwrowahaniaeth**.



- **Gwasanaeth Parciau Caerdydd** – fe fydd yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau chwarae ar gael sy’n addas ar gyfer plant ag anableddau.

# 2. Cyrraedd eich nodau mewn dysgu a gwaith





Rydyn ni eisiau cael gwell cefnogaeth i bobl **niwrowahanol** mewn addysg.



Rydyn ni eisiau cefnogi pobl i weithio a gwneud yn siŵr bod lleoedd gwaith yn ateb anghenion pobl.



Fe wnaeth llawer o bobl ddweud bod angen gwneud mwy i wella ysgolion a'u gwneud yn fwy hygyrch.




Rydyn ni wedi gwneud cynllun o'r enw Fframwaith Cynhwysiant Caerdydd. Mae hyn yn sôn am lawer o bethau fyddwn ni'n eu gwneud mewn ysgolion.

**Rhai o'r pethau fydd sefydliadau yn eu gwneud neu yn eu gwneud:**

**Fe fydd Cyngor Caerdydd yn:**



- Gweithio gydag ysgolion i helpu i wella dysgu i blant **niwrowahanol**.



- Dweud wrth fwy o bobl am y Cynllun Cyflogaeth â Chymorth Lleol. Mae hyn yn cefnogi pobl i gael gwaith.




- Cynnig mwy o gefnogaeth sy'n deall **niwrowahaniaeth** ar gyfer gwaith. Gan gynnwys gwybodaeth yn Hawdd ei Ddeall.



- Fe fydd **Addysg Cyngor Caerdydd** yn gweithio gydag ysgolion i wneud yn siŵr bod athrawon yn cefnogi dysgwyr **niwrowahanol** yn dda.



- Fe fydd **Caerdydd sy'n Dda i Blant** yn gwrando ar beth mae plant a phobl ifanc yn feddwl am addysg.



- Fe fydd **Amgueddfa Cymru** yn gwneud yr amgueddfa yn lle gwell i staff **niwrowahanol** weithio.
- Fe fyddan nhw hefyd yn gwneud map synhwyraidd o'r adeilad i gefnogi pobl a dangos ardaloedd tawelach.



- Fe fydd yr **Adran Gwaith a Phensiynau** yn parhau i weithio gyda sefydliadau eraill i roi cyngor am waith. A gwneud Canolfannau Gwaith yn leoedd sy'n deall **niwrowahaniaeth**.
- Fe fydd ganddyn nhw hefyd ddigwyddiadau hygyrch.



- **Sgiliau Sylfaenol Oedolion Cymunedol** – fe fydd yn cefnogi pobl ag anableddau niwrowahanol ac anableddau dysgu gyda gwirfoddoli a gwaith.



- Mae **Gwasanaeth Cyngor I'r Gwaith Caerdydd** yn cynnig cymorth i bobl allan o waith. Mae nhw'n cael wasanaeth da i **niwrowahaniaeth**.



Mae nhw'n rhedeg prosiect **Cyflogaeth â Chymorth Lleol**. Mae hyn yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i mewn i waith.




- Mae Cyngor Caerdydd wedi creu canllaw o'r enw **Canllaw i Niwrowahaniaeth yn y Gweithle**.



- Fe fydd Cyngor Caerdydd yn parhau i wella'r ffordd maen nhw'n cefnogi staff **niwrowahanol**. Bydd y cyngor yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill am gefnogi pobl.

# gwybodaeth rydych chi'n gallu ymddiried ynddi






Rydyn ni eisisau i bobl a theuluoedd **niwrowahanol** gael gwell gwybodaeth am wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ddim wedi cael diagnosis.

**Fe fydd Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth yn:**



- Sefydlu pwyntiau gwybodaeth i gefnogi pobl **niwrowahanol** ym mhob Hyb a llyfrgell. Hefyd, rhai lleoliadau iechyd.



- Creu gwefan i roi gwybodaeth mewn ffordd hawdd.
- Sefydlu **Fforwm sy'n Deall Niwrowahaniaeth**.
- Rhannu gwybodaeth am wahanol fathau o **niwrowahaniaeth** a'r gwasanaethau sydd ar gael.




**Fe fydd Cyngor Caerdydd yn:**

- Creu fersiwn Hawdd ei Ddeall o wefan Cyngor Caerdydd.



- Gwella gwybodaeth i deuluoedd.
- Fe fydd **Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd** yn rhannu gwybodaeth iechyd a gwybodaeth bwysig arall am **niwrowahaniaeth**.



**Fe fydd Niwrowahaniaeth Cymru yn:**

- Helpu i wella dealltwriaeth sefydliadau ar draws Caerdydd.
- Fe fyddan nhw'n rhoi gwybodaeth i bobl am gefnogaeth.



Fe fydd **Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd** yn gwneud yn siŵr bod eu gwefan yn hawdd i gael.

# 4. Cefnogi iechyd a lles pobl a theuluoedd niwrowahanol



Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

**Fe fydd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) yn:**



- Sefydlu Grŵp Gweithredu Niwrowahanol. Fe fydd elusennau a grwpiau eraill yn gweithio gyda'i gilydd i wneud gwasanaethau yn well i bobl.

**Fe fydd Coleg Adferiad a Lles Caerdydd a'r Fro yn:**



- Gweithio gydag eraill i wella dealltwriaeth am **niwrowahaniaeth**.



Fe fydd hyn trwy gwrs o'r enw **Deall Niwrowahaniaeth**.

**Fe fydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn:**



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cymorth pa bynnag adran iechyd maen nhw'n gofyn am help ohoni.




- Dal ati i leihau rhestrau aros gymaint ag maen nhw'n gallu.



- Rhoi asesiadau da i bobl.



- Dal ati i weithio'n galed i gadw'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am beth sy'n digwydd gyda'u cefnogaeth.




- Fe fyddan nhw'n darparu cymorth a gwybodaeth ar gyfer anghenion gwahanol. Er enghraifft, y gweithdy Archwilwyr Emosiynol am ADHD.

**Fe fydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro (RPB) yn:**



- Sefydlu bwrdd o'r enw **Bwrdd Niwrowahaniaeth**. Fe fydd hyn yn helpu pobl i weithio gyda'i gilydd yn well i wneud gwelliannau.




- Edrych i weld bod y nodau wedi'u cyflawni ar gyfer **Cynllun Cyflawni'r Bwrdd Niwrowahanol.**

**Mae Awtistiaeth Integredig Caerdydd a'r Fro (IAS) yn darparu cymorth i oedolion. Fe fyddan nhw yn:**




- Darparu asesiadau ar gyfer cyflyrau **niwrowahaniaeth**.



- Gwella hyfforddiant a chyngor.



- Dal ati i weithio gyda phobl awtistig a'u teuluoedd.

**Fe fydd Cyngor Caerdydd yn:**



- Gweithio gyda sefydliadau tai i wella tai a chefnogaeth.



- Gwneud yn siŵr bod barn pobl **niwrowahanol** yn cael eu clywed.



- Rhedeg cwrs o’r enw The Parent Factor. Mae hyn yn cefnogi rhieni plant ag **ADHD**.




- Mae gan Gyngor Caerdydd **Dîm Niwrowahaniaeth** i oedolion ers 2023.

**Fe fydd y tîm Profiad Blynyddoedd Cynnar yn:**



- Dweud wrth bobl am y **rhaglen E-Pats**. Mae hwn yn gwrs sy'n cefnogi teuluoedd â phlant anabl.

**Fe fydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn:**



- Helpu i ddod o hyd i ffyrdd gwell o gefnogi pobl ag anawsterau synhwyraidd.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru - Prosiect Sgrinio'r Fron**



Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gydag eraill i wneud yn siŵr bod gwybodaeth am sgrinio'r fron yn hygyrch.

# 5. Cael eich deall a dathlu gwahaniaeth





Rydyn ni eisiau i bobl adnabod a deall pobl **niwrowahanol** yn well. I weld popeth maen nhw'n dda ynddo a'u gwerthfawrogi.



Fe fydd Cyngor Caerdydd yn:

- Gwneud yn siŵr bod pobl mewn cymdeithas yn deall **niwrowahaniaeth** yn well. Gofyn i bobl sydd â phrofiad o **niwrowahaniaeth**.



**Fe fydd Tân ac Achub De Cymru yn:**



Gwneud yn siŵr bod pobl **niwrowahanol** yn cael eu cefnogi i weithio iddyn nhw.



**Fe fydd Heddlu De Cymru yn:**

- Gweithio gyda'r **Rhwydwaith Niwrowahaniaeth** i ddysgu mwy a gwneud newidiadau i staff cymorth.
- Dysgu mwy i wneud yn siŵr bod pobl **niwrowahanol** yn gallu defnyddio gwasanaethau heddlu yn hawdd ac yn teimlo'n ddiogel.



**Fe fydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn:**

- Gwneud yn siŵr bod carcharorion **niwrowahanol** yn cael eu cefnogi.



- Helpu pobl **niwrowahanol** ar brawf trwy wrando ar eu hanghenion.



**Fe fydd partneriaid Pride Anabledd yn:**


- Parhau i gynnal digwyddiadau balchder anabledd yng Nghaerdydd.

**Fe fydd Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn:**



- Gwneud yn siŵr bod yna lyfrau sy'n ateb anghenion pobl.

**Dathlu Niwrowahaniaeth yn y Celfyddydau:**




- Fe fydd sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i gynnal digwyddiadau sy'n dathlu **niwrowahaniaeth** yng Nghaerdydd.



# 6. Gwella lleoedd ar gyfer pobl niwrowahanol





Rydyn ni eisiau i bobl **niwrowahanol** deimlo eu bod wedi'u cynnwys mewn mannau cyhoeddus. Er enghraifft, mae rhai pobl yn gallu cael trafferth gyda llawer o sŵn.

**Fe fydd Cyngor Caerdydd yn:**



- Gwneud yn siŵr bod tai cywir i oedolion ag awtistiaeth ac anableddau dysgu.
- Fe fyddwn ni'n edrych ar wahanol ffyrdd o gefnogi pobl ifanc sy'n **niwrowahanol** gyda thai.
- Gwneud yn siŵr bod pob datblygiad newydd yng Nghaerdydd yn gwybod sut i wneud adeiladau a mannau sy'n deall **niwrowahaniaeth**.




- Gwneud canolfannau a llyfrgelloedd yn leoedd sy'n deall **niwrowahaniaeth**.
- Mae gan lawer o'r mannau yma ardaloedd tawel yn barod gydag **offer synhwyraidd**. Mae hyn yn meddwl pethau fel carpedi fflachio a goleuadau arbennig.

**Fe fydd Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Prifysgol Caerdydd Cymru yn:**



- Cynnal ymchwil ar sut i gefnogi pobl awtistig a'u teuluoedd.

**Fe fydd Canolfan Siopa Dewi Sant yn:**




- Gwneud canllaw sy'n deall **niwrowahaniaeth**. Fe fydd yn dangos lle mae lle tawel a chefnogaeth arall. Fe fyddan nhw'n gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am hyn.



- Mae ystafell dawel ar gael ar Lawr 2 gydag **offer synhwyraidd**.




- Mae cymorth ar gael wrth y ddesg Gwasanaethau Gwesteion, ger y siop o'r enw Bershka.

**Fe fydd Mermaid Quay yn:**



- Rhoi bagiau cefn gydag adnoddau synhwyraidd at ei gilydd. Fe fydd y rhain ar gyfer pobl **niwrowahanol** i'w benthyca pan fyddan nhw yn ymweld. Fe fyddan nhw'n helpu i'w cefnogi.

**Fe fydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn:**




- Rhannu byrddau cyfathrebu ar gyfer lleoliadau cymunedol.

**Fe fydd Canolfan Mileniwm Cymru yn:**



- Darganfod pa mor dda mae eu cynlluniau i gefnogi pobl **niwrowahanol** yn gweithio.




- Mae ganddyn nhw ystafell dawel ar y llawr gwaelod.



- Maen nhw hefyd yn cynnal digwyddiadau hamddenol sydd â sioeau tawelach a newidiadau eraill.

**Fe fydd Stadiwm Principality yn:**



- Dal ati i gael ystafell dawel ac edrych i mewn i ystafell synhwyraidd.



- Codi ymwybyddiaeth o'u canllawiau ar gyfer cefnogwyr anabl a chefnogwyr **niwrowahanol**. Mae ganddyn nhw ystafell dawel.

**Fe fydd Trafnidiaeth Cymru yn:**




- Ysgrifennu cynlluniau i helpu i wella profiadau cwsmeriaid a'u staff.



- Fe fyddan nhw'n parhau i hyfforddi staff am **niwrowahaniaeth**.

**Parciau Caerdydd:**




- Mae gwefan Awyr Agored Caerdydd yn rhoi gwybodaeth am bob parc a sut i symud o gwmpas.



- Mae gerddi synhwyraidd yn rhai o'r parciau. Mae'r rhain yn fannau tawel gydag arogleuon, synau a gweadau gwahanol.



- Mae gan Pad Sblasio Parc Fictoria sesiynau hamddenol yn yr haf.



- Fe fyddan nhw'n parhau i siarad â phobl am eu barn. A gwneud digwyddiadau a gweithgareddau eraill yn fwy cynhwysol.



- Fe fyddan nhw'n ceisio gwneud yn siŵr bod mwy o weithgareddau ar gael i bawb.


# Gwrando ar beth mae pobl yn feddwl



Fe wnaethon ni wrando ar beth mae pobl yn feddwl. Fe wnaethon ni gynnal digwyddiadau o fis Mawrth i fis Mehefin 2024.




Ym mis Gorffennaf 2025 fe wnaethon ni ofyn i bobl beth roedden nhw'n feddwl am fersiwn ddrafft y cynllun yma.




Fe wnaethon ni fersiynau gwahanol ohono, gan gynnwys yn Hawdd ei Ddeall. Roedd 25 o ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Ddeall.



Yn gyfan gwbl fe gawson ni 809 o ymatebion o bob fersiwn. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda beth roedden ni wedi ei ddweud ar gyfer pob un o'r 6 nod.



Rhai pethau roedd pobl eisiau eu newid yn y cynllun drafft oedd:



- Dywedodd pobl y dylai fod mwy o weithgareddau a chefnogaeth i bobl niwrowahanol. Yn enwedig i oedolion hŷn.




- Dywedodd pobl fod angen gwelliannau mewn lleoliadau ysgol.



- Mae angen mwy o gefnogaeth i bobl yn y gweithle.



- Mae angen mwy o wybodaeth am iechyd a lles.



- Mae angen i bobl wybod mwy am newidiadau tai sy’n digwydd.



- Fe ddylai fod yn glir sut fydd y cynllun yn cael ei wirio. I wneud yn siŵr ei fod yn gwneud beth mae’n ei ddweud y bydd yn ei wneud.



Rydyn ni wedi cymryd camau i ddelio gyda’r holl faterion yma ac wedi diweddaru’r cynllun yma i ddangos hynny.




Rydyn ni eisiau diolch i bawb am rannu beth maen nhw’n feddwl.

# Beth sy’n digwydd nesaf




Mae’r cynllun yn dangos beth sydd yn gallu cael ei gyflawni gan bawb yn gweithio gyda’i gilydd, o wahanol wasanaethau.



Rydyn ni eisiau parhau i wrando ar y gymuned **niwrowahanol**. Rydyn ni eisiau sefydlu fforwm Caerdydd sy’n deall niwrowahaniaeth.



Yma mae pobl yn gallu parhau i rannu beth maen nhw’n feddwl a dweud wrthyn ni os oes angen newidiadau.




Fe fyddwn ni’n gwneud cynllun gweithredu i edrych ar ein gwaith. Fe fyddwn ni hefyd yn cyhoeddi adolygiad blynyddol o beth sydd wedi digwydd.



Rydyn ni’n gobeithio y bydd Caerdydd yn dod yn lle mwy cefnogol i bobl **niwrowahanol**.

Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd
Cardiff Wellbeing Support Service

Caerdydd sy'n Deall Dementia
Dementia Friendly Cardiff

Living Well with a Learning Disability
Strategy for Adults

Shaping Our Future Wellbeing

gwasanaeth cynghori i mewn i waith
into work advice service

Department for Work & Pensions

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru
HM Prison & Probation Service in Wales

Integrated Autism Service
Gwasanaeth Cyfun Awtistiaeth

CARDIFF CAERDYDD

Dinas Gofal - Care'Diff

PedalPower

Child Friendly Cardiff
Caerdydd Sy'n Dda i Blant

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

COMMUNITY FOUNDATION

SCOPE

NEURODIVERGENT

ace

Neurodivergence Wales

CARDIFF YOUTH SERVICE
GWASANAETH IEUENCTID CAERDYDD

Coleg Adfer a Lles
Recovery & Wellbeing College

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

AP CYMRU

Dewis Cymru
Have choice and take control

ascc
autism spectrum connections cymru

CHWARAEON ANABLEDD CYMRU
DISABILITY SPORT WALES

Gwasanaethau Chwarae Plant
Children's Play Services

Cardiff Caerdydd

Cardiff Family Advice and Support

British Dyslexia Association

Museum of Cardiff
Amgueddfa Caerdydd

Sight Life
Local sight loss support
Cymorth colled golwg lleol

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

the index
y mynegai

GIG BUDDIES CYMRU
FFRINDIAU GIG CYMRU

The Cardiff Commitment
Addewid Caerdydd

Tourettes action

Gyrfa Cymru
Careers Wales

AMGUEDDFA CYMRU

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

LLAIS

Chwaraeon Met Caerdydd
Cardiff Met Sport

C3SC
Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd